

Pris: 50c

Papur Pawb

Chwefror 2022

Rhif 476

“Mi oe’n i ddigon dwl i gwyno fod y peiriant golchi llestri yn defnyddio gormod o drydan.”

|                        |                   |                       |                   |
|------------------------|-------------------|-----------------------|-------------------|
| tud 3<br>Pobl a Phethe | tud 8<br>Y Talwrn | tud 10<br>Emyr Davies | tud 12<br>Cerdded |
|------------------------|-------------------|-----------------------|-------------------|

# Enid a Robat Gruffudd – Tywyswyr 2022

Mae Papur Pawb yn hynod falch gallu cyhoeddi taw dau berson cyfarwydd iawn i ni sy’n cael y fraint o arwain Pared Gŵyl Dewi drwy strydoedd Aberystwyth eleni. Llongyfarchiadau mawr i Enid a Robat Gruffudd, sefydlwyr Gwasg Y Lolfa, ar gael eu dewis i dywys y Parêd ar ddydd Sadwrn 5 Mawrth 2022.

Yn ôl Sion Jobbins, Cadeirydd y Parêd, “Mae cyfraniad y ddau trwy sefydlu a rhedeg Y Lolfa yn anferthol. Roedd penderfyniad Robat ac Enid i sefydlu’r wasg yn Nhal-y-bont i greu gwaith yn ardaloedd gwledig Cymraeg eu hiaith yn holl bwysig. Tyfodd y cwmni yn gyflogwr amlwg yng ngogledd Ceredigion gan ddod â swyddi proffesiynol, da i’r ardal.”

Trwy gyd-ddigwyddiad, ganed Robat ac Enid yn Llwyn-y-pia, yn y Rhondda, o fewn mis i’w gilydd, ond magwyd Enid yn Ael Dinas, Trefechan, Aberystwyth, tra i Robat gael ei fagu yn Abertawe.

Sefydlodd Robat y cylchgrawn dychanol ac eiconig, *Lol* yn 1965 ym Mangor gyda’i ffrind, y diweddar awdur, Penri Jones. Creodd y cylchgrawn gynnwrf mawr ond roedd yn rhan o’r mudiad gwleidyddol a diwylliannol a luskodd y Gymraeg i fod yn iaith gyfoes ac ifanc.

Aeth ymlaen i sefydlu Gwasg Y Lolfa yn 1967 yn Nhal-y-bont ac mae’r cwmni bellach yn cael ei redeg gan eu meibion



Garmon a Lefi. Mae Einion, eu mab hynaf, yn gweithio fel arweinydd prosiect yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth.

Mae’r Lolfa yn cyhoeddi llyfrau poblogaidd Cymraeg a Saesneg ac mae Robat ei hun yn awdur sydd wedi cyhoeddi nifer o nofelau, cyfrol o farddoniaeth a *Lolian*, dyddiadur hanner canrif. Mae diwylliant a gwleidyddiaeth Cymru a’r Gymraeg wastad wedi bod yn bwysig i Robat ac Enid ac roedd y ddau ym mhrotest enwog Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ar Bont Trefechan yn 1963.

Bu Enid yn athrawes yn Nhal-y-bont ac yn gweithio i’r Lolfa am gyfnodau tra’n cymryd rhan mewn protestiadau dros yr iaith Gymraeg ac yn erbyn arfau niwclear.

Dywedodd Sion Jobbins, “Daeth y Lolfa ag ysbryd newydd i ddiwylliant Cymraeg ac mae hi hefyd wedi gwneud cyfraniad anferth wrth gyhoeddi cannoedd o lyfrau Saesneg yn esbonio Cymru i gynulleidfa ryngwladol.”

Mewn ymateb i’r gwahoddiad, dywedodd Robat, “Bydd arwain y Parêd yn fraint ac yn bleser i ni. Bydd yn anrhydedd cael dilyn yn llinach y tywyswyr gwych a fu o’n blaenau. Ond pwysicach na’n cyfraniad ni i fywyd Cymreig yr ardal, yw cyfraniad allweddol yr ardal a’i Chymreictod i’n llwyddiant ni fel gwasg. Does dim modd dychmygu’r Lolfa yn ffynnu yn unrhyw le ond yn Nhal-y-bont.”

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:

Gwyn Jenkins  
(01970) 832560  
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion  
golygydd@papurpawb.com

Tynnu lluniau:

Cysyllter â golygyddion y mis

GOHEBYDDION LLEOL

Tal-y-bont:

Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont  
832592

Parsel Henllys:

Rhys Huws, Llwyn Onn  
832076

Bont-goch:

Cathryn Lloyd-Williams  
cat\_yfoel@hotmail.com

Llangynfelyn:

Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin  
832573

Eglwys-fach/Ffwrnais:

Non Griffiths  
(01654) 781264

Rhwydweithiau cymdeithasol:

Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB

Cadeirydd:

Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont  
832697

Is-gadeirydd:

Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach  
832773

Ysgrifennydd:

Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont  
832344

Trysorydd:

Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont  
832093

Tanysgrifiadau:

Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont  
832448

Hysbysebion:

Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont

Dylunio:

Iolo ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

Plygu'r Papur:

Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins

Dosbarthwyr:

Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones;  
Carys Briddon, John Evans

Cyhoeddwyd gan  
Gymdeithas Papur Pawb.  
Ariennir yn rhannol gan  
Lywodraeth Cymru.

CYMRAG

am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan...  
[www.papurpawb.cymru](http://www.papurpawb.cymru)  
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

GOLYGYDDION

Golygyddion y rhifyn hwn  
oedd Llio a Cathryn, gyda  
Iolo'n dylunio.  
Diolch iddynt.

Golygyddion rhifyn  
Mawrth fydd Non a Gerwyn  
([nonjones100@gmail.com](mailto:nonjones100@gmail.com)).  
Y dyddiad cau yw 4 Mawrth  
a bydd y papur ar werth ar 11  
Mawrth.

Llythyr

Y Ganolfan Integredig,  
Boulevard de Saint-Brieuc,  
Aberystwyth  
Ceredigion SY23 1PD



Gweithio gyda phlant bach er budd yr iaith Gymraeg

A fydddech chi'n mwynhau cyflwyno'r Gymraeg i blant bach eich  
cymuned leol gan gadw'r iaith yn fyw yn eich ardal? Mae 'na lawer  
o gyfleoedd ar gael i drio am swyddi yn eich Cylchoedd Meithrin  
lleol.

Mae gweithio mewn Cylch Meithrin gyda phlant 2-5 oed yn  
gallu rhoi boddhad mawr i chi wrth weld y plant yn siarad Cymraeg  
am y tro cyntaf a rhoi hyder i'w rhieni i'w gyrru ymlaen i Addysg  
Gymraeg. Gallwn hefyd eich cefnogi i gael hyder i ail-gydio yn y  
Gymraeg os nad ydych wedi cael cyfle i'w defnyddio yn aml ers i  
chi adael yr ysgol.

Trwy weithio mewn Cylch Meithrin byddwch yn cyfrannu at y  
nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Os hoffech ystyried newid swydd, yna mae gennym gynlluniau  
hyfforddi amrywiol i'ch helpu i ennill cymhwyster addas tra'n  
gweithio.

I glywed mwy am ein holl swyddi, ewch i'n gwefan – [www.meithrin.cymru/swyddi](http://www.meithrin.cymru/swyddi)

Am sgwrs pellach mae croeso i chi gysylltu gyda Leanne  
Marsh, drwy ffonio 01970 639639 neu e-bostio [leanne.marsh@meithrin.cymru](mailto:leanne.marsh@meithrin.cymru).

Cofion caredig,

Gwenllian

Dr Gwenllian Lansdown Davies  
Prif Weithredwr Mudiad Meithrin

**Gadewch i ni Siarad  
Galw Heibio**  
Arbed arian ar eich biliau Grantiau ar gael  
Cynllun Disgownt Cartrefi Cynnes  
Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth  
Problemau cyflenwyr ynni  
**11.03.2022 11.00 - 13.00**  
01970 832 113  [events@cletwr.com](mailto:events@cletwr.com)  
**Cletwr**

**CYMDEITHAS SIOE TAL-Y-BONT  
CYFARFOD BLYNYDDOL**  
Nos Lun 7 Mawrth 2022  
8:00yh  
Bwriedir cynnal y cyfarfod yn y Neuadd Goffa ond os na fydd yr  
amgylchiadau'n caniatáu byddwn yn cwrdd yn rhithiol.  
Cysylltwch â Carol Davies am ragor o fanylion  
(01970 832989 / [ysgrifenyddes@sioetalybontshow.com](mailto:ysgrifenyddes@sioetalybontshow.com))  
Croeso cynnes i bawb!

**Salon Leri**  
*Pob agwedd o drin  
gwallt gan Richard*  
10am-7pm  
Llun-Gwener  
(01970) 832 674

**Afiaith**  
Gwasanaeth Cyfieithu  
Profiadol • Proffesiynol  
Prydlon • Personol  
Martin Davis  
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH  
Powys SY20 8JG Cymru  
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 [afiaith@aol.com](mailto:afiaith@aol.com)

DYDDIADUR

CHWEFROR

- 13 Bethel 10 Gwilym Tudur (C)  
Eglwys Sant Mihangel,  
Eglwysfach 9.30
- 17 Eglwys Llangynfelyn yn  
Llanfach 5 Gweddi hwyrrol  
Merched y Wawr Tal-y-bont  
a'r Cylch 'O'r Aman i'r  
Ystwyth' (Glan Davies) 7.30  
Neuadd Goffa Tal-y-bont
- 19 Dal Ati Zoom 11–11.30  
Cletwr
- 20 Eglwys Sant Mihangel,  
Eglwysfach 9.30  
'Creigiau Ceredigion'  
2.30–4.30 Cletwr
- 27 Bethel 10 Geraint Evans  
Eglwys Sant Mihangel,  
Eglwysfach 9.30

MAWRTH

- 6 Eglwys Llangynfelyn yn  
Llanfach 2.15 Cymun
- 4 Noson Bandiau 7.30–10  
Cletwr
- 5 Dal Ati Zoom 11–11.30  
Cletwr
- 6 Rehoboth 10 Gweinidog  
Eglwys Sant Mihangel,  
Eglwysfach 9.30
- 8 Cymdeithas y Chwiorydd,  
Rehoboth
- 11 Gadewch i ni Siarad Galw  
Heibio 11–1 Cletwr  
Cletwr Dydd Mawrth 1–4  
'Clonc a Gweu'

DYDDIADUR

Cofwch anfon manylion am  
weithgareddau eich mudiad  
neu'ch sefydliad at Carys  
Briddon,  
[carysbriddon@btinternet.com](mailto:carysbriddon@btinternet.com)  
01970 832478  
o leiaf ddeng niwrnod cyn y  
rhifyn nesaf o'r papur.

Byw y tu allan i dalgylch  
Papur Pawb?

Dyma'r siopau sy'n  
gwerthu Papur Pawb y tu  
allan i dalgylch y papur:

Siop Inc, Aberystwyth  
Y Swyddfa Bost, Penrhyn-  
coch  
Siop Spar, Bow Street.

Mynnwch gopi o'r rhifyn  
diweddaraf am 50 ceiniog  
yn unig.

# Pobl a Phethe



## LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau mawr i Hanna Watkin, sy'n gweithio yn yr Ysgol Feithrin ac yn Ysgol Tal-y-bont, ar ei dyweddïad gyda Mark Evans.

## PENBLWYDDI

Dymuniadau gorau i Eurfryn Williams, Maes Afallen, Bow Street (Gwarcwm Isaf gynt), fydd yn dathlu ei ben-blwydd yn 80 oed ddiwedd y mis. Pen-blwydd hapus!

Llongyfarchiadau i Sandra Laverty, Bancyfelin, Tal-y-bont, ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau mawr i William John Jenkins, Ynyseidiol, a fydd yn dathlu ei ben-blwydd yn 101 oed ar Chwefror 21ain. Y mae yn un o'r ychydig sydd yn wreiddiol o'r ardal, ac yn sicr wedi bod yn un o hoelion wyth Ysgubor y Coed. 'Rwyf yn siŵr y cewch ddathliad hapus gyda'r teulu.

## CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn ag Innes Herron, Cryd-yr-Awel, Taliesin ar farwolaeth ei lys-dad yn sir Aberdeen, yr Alban.

Derbyniwyd y newyddion hefyd am farwolaeth tad Sian Saunders, Is-y-coed, Taliesin, ddiwedd 2021.

Cydymdeimlwn yn fawr gyda chi'ch dau a'ch teuluoedd yn eich colled.

## GENEDIGAETH

Llongyfarchiadau i Jenny a Mick Fothergill, Minafon, Tal-y-bont, ar enedigaeth eu hwyres. Ganed merch fach i Ben a Rachel draw yn Solfach, sir Benfro. Pob dymuniad da i'r teulu.

## MARWOLAETH

Trist yw cofnodi marwolaeth William John Jones, Llanbedr, ar Ddydd Llun, Ionawr 10fed, yn 68 oed. Cydymdeimlwn yn ddwys ag Eirlys Jones, chwaer yng nghyfraith, a'r teulu yn fferm Ynyshir, yn eu profedigaeth. Hefyd i'w frawd, Tomos Jones a'r teulu yn Rhydyfelin, yn wreiddiol o Ynyshir, yn eu colled a'u galar.

*Rhian*

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad  
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy  
ffôn 832 612  
07835 525 553

## LLAETH LLEOL ORGANIG

ar gael yn y

Cwtsh Llaeth Aberystwyth a Machynlleth

[www.llaethjenkinsmilk.co.uk](http://www.llaethjenkinsmilk.co.uk)

07813 827 712

@cwtshllaeth



## CC am PP

Roedd agor toiledau Tal-y-bont yn ganlyniad tipyn o saga ond go brin fod y rhai a fu wrthi'n dadlau'r achos flynyddoedd yn ôl yn disgwyl y datblygiad newydd a gafwyd yno. Roedd modd defnyddio'r cyfleusterau am ddim tan yn weddol ddiweddar pan ddaeth yr angen i dalu 20 ceiniog am fynediad. Bellach mae modd talu'r 20 ceiniog gyda cherdyn credyd. Beth oedd ergyd yr hen hysbyseb am gerdyn credit?: 'That'll do nicely'!

## DONIOL

Dyma hoff jôc y diweddar Barry Cryer:

'Gyrrwr car ar ffordd gefn gwlad yn taro lawr a lladd ceiliog.  
Mae'n mynd at y fferm cyfagos gyda chorff y ceiliog yn ei law. Mae gwraig y fferm yn dod i'r drws ac mae yntau'n ymddiheuro iddi gan ddweud: 'Hoffwn wneud yn iawn am hwn'  
Y wraig yn ateb: 'Popeth yn iawn. Mae'r ieir rownd y cefn.'

**CANOLFAN M.O.T.**

**HUW LEWIS**

**M.O.T. CENTRE**

**Glanyrafon**

**Teiars**  
**Aliniad Olwyn**  
**Ecsôsts**  
**Batris**  
**Brêcs**  
**Hongiad**  
**Bar tynnu**  
**Gwasanaeth**  
**MOT**

**HUWLEWISTYRES.COM**

**TEIARS**

**HUW LEWIS**

**TYRES**

**Rhodfa'r Parc**

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.  
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan **ALIGNMYCAR.CO.UK**  
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

**ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000**  
**LLANBED 01570 422221**

# Ysgol Tal-y-bont

## Hen Galan



Roedd dathlu'r Hen Galan yn gyfle da i ddathlu rhai o hen draddodiadau Cymru. Penderfynwyd efelychu'r artist William Brown yn y Cyfnod Sylfaen a chreu delweddau cyffrous a lliwgar o'r fari lwyd gan gynnwys modelau 3-D. Da iawn chi blant – gwaith arbennig.

## Heddlu



Mae gan yr ysgol gysylltiad agos gyda'r heddlu ers blynnyddoedd ac mae ymweliad gan P.C. Hannah wastad yn ddiddorol a gwerthfawr. Y tro yma roedd wedi trafod y gwahaniaeth rhwng moddion a chyffurfiau gyda'r disgyblion hŷn.

## Ysgrifennu erthygl



Pa ffordd well i ddangos i blant Blwyddyn 5 a 6 sut i ysgrifennu erthygl nac astudio hen rifynnau Papur Pawb a dysgu wrth y meistri! Mae'r staff i gyd yn edrych ymlaen yn fawr at eich gweld yn cyfrannu i'ch papur bro lleol yn y dyfodol!

## Blwyddyn Newydd Asia



Cafwyd tipyn o hwyl yn dathlu Blwyddyn Newydd y Teigr eleni. Fe wnaeth y plant fwynhau arbrofi gyda phaent i greu oren, a mwynhau y llanast!

## Adeiladu pontydd a chestyll



Castell Siskin a Maia



Ruby Cadi ac Osian yn adeiladu pont sbageti

Mae plant Blwyddyn 3 a 4 wedi bod wth eu boddau'n adeiladu pontydd yn ystod y mis. Yn gyntaf roedd yn rhaid ymchwilio i wahanol bontydd, cyn cynllunio a wedyn creu. Roedd y plant yn meddwl ei bod hi'n ddoniol defnyddio prennau coctel a losin i greu'r strwythur! Ym Mlwyddyn 5 a 6, fel rhan o astudio agweddau am Gymru, roedden nhw wedi defnyddio deunydd ailgylchu i adeiladu cestyll. Fel y gwelwch o'r lluniau, roedd y plant wedi cael tipyn o hwyl arni ac wedi mwynhau dysgu ffeithiau am y gwahanol gestyll sydd ar hyd a lled y wlad.

Cyfri Adar RSPB



Cadi, Edith, Isla a Teal yn cyfiri adar Bob blwyddyn, rydym yn falch iawn o fod yn rhan o ymgyrch cyfiri adar RSPB. Er gwaethaf y tywydd oer roedd y plant yn frwd iawn i gasglu a chofnodi eleni eto. Dyma rai o'r adar a welwyd ar dir yr ysgol, aderyn y to, titw tomos las, robin goch a drudwy.

Parti Pen-blwydd yr Urdd



Criw o'r bechgyn yn dathlu pen-blwydd yr Urdd Ar Ddiwrnod Santes Dwynwen, roedd hi'n gyffrous iawn i ymuno yn yr hwyl wrth ddathlu pen-blwydd mudiad Urdd Gobaith Cymru yn 100 yn ystod mis Ionawr. Fel rhan o'r dathliadau, roedd ysgolion wedi eu gwahodd i dorri dwy record byd wrth uwchlwytho fideos o grwpiau'n canu'r gân 'Hei Mistar Urdd' ar y cyfryngau cymdeithasol. A'r newyddion da oedd bod plant Ysgol Tal-y-bont wedi bod y rhan o greu dwy record byd newydd – da iawn chi blant a diolch yn fawr i Miss Morris am gydlynu'r gwaith.

Cestyll

Mae plant y Cyfnod Sylfaen hefyd wedi bod yn astudio cestyll yn ystod y tymor yma. Un o hoff weithgareddau'r plant oedd creu bwa a saeth gan ddefnyddio prennau oedd wedi disgyn ar y cae dros y gaef. Roedden nhw wedi mwynhau'r gystadleuaeth i weld pa saeth fyddai'n teithio'r pellaf.



Saethu Bwa Saeth

Newyddion Staffio

Llongyfarchiadau mawr i Miss Watkin ar ei dyweddïad gyda Mark yn ddiweddar. Pob hwyl i chi'ch dau.  
Llongyfarchiadau hefyd i Miss Buddug Williams am basio cymhwyster Rheolaeth Ganol yn ddiweddar – gwyh Miss Williams!  
A hoffwn estyn croeso cynnes i Miss Megan Evans atom fel cynorthwy-ydd yn y Cyfnod Sylfaen. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn gyda ni yma yn Ysgol Tal-y-bont.

Cydweithio Campus



Podlediad

Yn ystod y mis, bu Ysgol Tal-y-bont ac Ysgol Craig yr Wylfa yn parhau gyda'r cydweithio sydd wedi digwydd dros y misoedd diwethaf yn y Prosiect Pont yr Wylfa, drwy greu podlediad ar y cyd. Thema'r podlediad oedd ein Milltir Sgwâr ac fe gawsom gymorth gwerthfawr Mrs Mared Llwyd a chyfraniad diddorol gan Dr Hywel Griffiths o Brifysgol Aberystwyth wrth baratoi'r gwaith. Penderfynwyd cyflwyno hanes Cors Fochno fel sail i'r gwaith gan fod y gors yn cysylltu ardal Borth ac ardal Tal-y-bont. Fel rhan o'r cynllun, buom yn cydweithio gyda'r cyflwynydd radio Marc Griffiths (Marci G) i ddangos sut mae golygu'r gwaith llafar ac ychwanegu effeithiau. Diolch yn fawr i'r Dewiniaid Digidol, Hedydd a Martha ac i Tomos am eich gwaith yn recordio cyfraniadau'r plant eraill. Mae'r podlediad ar gael i bawb bellach ar dudalen Facebook Cardi Iaith neu ar wefan Cyngor Sir Ceredigion. Mwynhewch!

Efaciwis

Mae plant Ysgol Tal-y-bont wedi dechrau prosiect newydd ar y cyd gyda'r Brifysgol yn Aberystwyth i astudio effeithiau'r Ail Ryfel Byd ar yr ardal leol. Mae'n brosiect cymunedol o'r enw 'Lleisiau Pobl mewn Rhyfel Pobl: Aberystwyth 1939-45', sy wedi'i ariannu gan y Loteri, ac yn cael ei arwain gan yr Adran Hanes a Hanes Cymru ym Mhrifysgol Aberystwyth. Rydym yn mynd i ddechrau drwy gasglu gwybodaeth am yr efaciwis a ddaeth i'r ysgol yn ystod y rhyfel. Os oes gennych unrhyw wybodaeth / straeon / hanesion am gyfnod yr efaciwis, mi fydden ni'n ddiolchgar iawn – cysylltwch gyda'r ysgol 01970 832276.

# Garej Davmor

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars  
Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion  
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig  
Y gareg gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

[www.davmorgarage.co.uk](http://www.davmorgarage.co.uk)  
Ffôn: 01970 832278

# Colofn Ben Lake AS

Ry'n ni wedi clywed tipyn dros yr wythnosau a'r misoedd diwethaf am yr argyfwng costau byw. Yn anffodus, nid rhywbeth sydd ar y gorwel yw'r argyfwng hwn – mae'n rhywbeth sydd eisoes yn effeithio ar nifer fawr o aelwydydd Cymru.



Mae Covid-19 wedi taro cadwyni cyflenwi byd-eang ac mae hyn wedi arwain at gynydd sylweddol mewn prisiau, yn enwedig prisiau deunyddiau crai. Mae prisiau bwyd hefyd wedi codi wrth i gyflogau gynyddu.

Ynghyd â'r cynnydd sylweddol mewn pris ynni, chwyddiant cynyddol, a'r cynnydd yn y dreth yswiriant gwladol sydd ar ddod, gallai teuluoedd yng Nghymru fod hyd at £1,200 allan o boced yn 2022.

Mae Llywodraeth San Steffan mewn trafodaethau brys gyda chwmnïau ynni ar hyn o bryd ynglŷn â'r cynnydd ym mhrisiau nwy byd-eang, cyn y cyhoeddiad ym mis Chwefror am newidiadau i'r cap ar brisiau ynni. Mae'r cap yn cyfyngu ar faint y gall cwmnïau ynni ei godi ar eu cwsmeriaid, a gallai ei gynyddu olygu bod biliau ynni'n codi 50%.

Yn y cyfamser, rydym yn byw mewn cartrefi sy'n oer ac yn ddrafftig —nid yw 70% o gartrefi'r DU yn bodloni lefel dda o effeithlonrwydd ynni. Mae hyn yn golygu bod un o bob pedair punt sy'n cael ei wario ar geisio cadw ein cartrefi'n gynnes yn cael ei wastraffu. Mae'r rhan fwyaf o'n cartrefi'n cael eu gwresogi gan losgi nwy, sydd nid yn unig yn llygru ein cymunedau, ond hefyd yn ein gwneud yn fwy agored i natur anwadal y farchnad tanwydd ffosil.

Yr un mor ddinistriol i bobl Ceredigion a chymunedau gwledig wrth gwrs, yw'r gost gynyddol mewn prisiau tanwydd. Er mwyn mynd i'r afael â heriau uniongyrchol y cynnydd ym mhrisiau tanwydd yn y tymor byr, dwi'n dadlau bod angen ymestyn Cynllun Rhyddhad Treth Tanwydd Gwledig Llywodraeth y DU i ardaloedd fel Ceredigion, drwy ddiwygio ei baramedrau fel eu bod yn cynnwys asesiad o wasanaethau trafndiaeth leol. Byddai hyn yn sicrhau, ar gyfer ardaloedd gwledig heb rwydwaith trafndiaeth gyhoeddus helaeth, y byddai'r Cynllun Rhyddhad yn helpu i leddfu ergyd prisiau tanwydd cynyddol.

Tlodi tanwydd, tlodi bwyd, tlodi plant — mae ymchwil NEF yn awgrymu bod 33% o boblogaeth Cymru yn byw islaw safon byw dderbyniol. Gydag ychydig o fisoedd ar ôl cyn codi'r cap ar brisiau ynni, rhaid i Lywodraeth San Steffan weithredu ar fyrder i fynd i'r afael â'r argyfwng sydd ar fin digwydd, a chyhoeddi cynllun gweithredu brys i helpu teuluoedd ac aelwydydd ledled y wlad.

# Portreadau Arvid



Y mae'r ffotograff hwn, a dynnwyd gan Arvid yn 1983, yn adlewyrchu cefndir y gwrthrych sef Nita (neu Juanita) James a oedd yn byw yn ei blyneddol olaf ym Maes-y-felin Tal-y-bont. Gan ei bod wedi ei geni a'i magu yn Colombia, De America, gwelir hi yma yn chwarae'r gitâr a gludwyd ganddi pan ddaeth i fyw i Gymru gyda'i theulu ddechrau'r 1920au.

Roedd tad Nita James, James Gwawrddu James, wedi ymfudo, ynghyd â nifer o'r ardal hon, i bentref o'r enw Frias yn Colombia ganol yr 1880au i weithio yn y gweithfeydd arian yno.

Hefin Llwyd fu yn ei chyfweld yn Ebrill 1983 ac isod ceir blas o'r ysgrif hir a diddorol am y Gymraes o Dde America.

Ar ymweliad â Thal-y-bont tua 1906 priododd Gwawrddu ag Annie Lumley, merch i fferyllydd o Fachynlleth, ac aeth hithau allan i Frias gydag ef. Roedd Gwawrddu erbyn hyn yn dal swydd gyfrifol yno fel profwr meteloedd a phrif dalwr y gwaith yn y swyddfa yno. Er bod y gweithwyr eraill yn byw mewn clwb neu faracs, roedd gan Gwawrddu a'i briod eu byngalo eu hunain. Dim ond y prif reolwr, y prif beiriannydd a'r prif dalwr oedd â chartref iddynt eu hunain. Galwyd y byngalo yn Las Juanitas gan fod yn yr enw Sbaeneg gyfuniad o'r enwau John= Juan, Anita = Annie a Juanita = Nita.

Yno y ganwyd Miss Nita James neu Juanita i roi'r enw llawn, ac yno y treuliodd bedair blynedd ar ddeg gyntaf ei bywyd. Lleolwyd Frias mewn gwlad anghysbell a gwyllt iawn gyda choedwigoedd trwchus o'i gwmpas. Magwyd hi ymhell o firi a stŵr unrhyw dref, a byddai'n blentyn yn crwydro llawer ar ei phen ei hun drwy'r fforestydd. Dysgodd ei thad hi i astudio lleoliad yr haul mewn perthynas â'u cartref rhag ofn iddi ddigwydd mynd ar goll. Fel y disgwylir mewn gwlad fel Colombia roedd nadroedd gwenwynig yn berwi yno, a'r wyrth yw na chafodd ei brathu yno ....

Mynychai Miss James ysgol breifat yn Frias a gynhelid mewn ystafell yn un o'r tai, a theithiai iddi bob dydd ar gefn ei cheffyl. Roedd yr addysg yn Sbaeneg, ac er mai Saesneg yn hytrach na Chymraeg oedd iaith ei mam, siaradai Gymraeg â'i thad, er yn fynych iawn siaradai Sbaeneg â'i rhieni gan eu bod yn rhygl yn yr iaith honno hefyd.

Bu'n hen arferiad yno i roi wythnos o wyliau Nadolig i'r gweithwyr. Mwynhaent eu hunain mewn amryw wleddoedd a chwaraeon, ac ar noson olaf yr hen flwyddyn roedd gwahoddiad i Las Juanitas...Mewn gwledd ardderchog gyda sawr a blas yr hen wlad yn llenwi'r lle, ceid eitemau amrywiol o ganu ac adrodd gan ei thad a Joseph James ei frawd, D R Edwards, J R Roberts a Richard Hughes o Daliesin...

Yn ystod y pedair blynedd ar ddeg fe groesodd Miss James Fôr yr Iwerydd saith gwaith, gan eu bod fel teulu yn dychwelyd i Dal-y-bont bob tair blynedd ar wyliau, ac ar un o'r mordeithiau hynny y dathlodd ei phen-blwydd yn chwech oed. Daeth y gwaith arian i ben tua 1921 ond arhosodd ei thad am dair blynedd arall i roi trefn ar bethau cyn dychwelyd i Dal-y-bont am y tro olaf yn 1924...

Hiraetha Miss James yn feunyddiol am ei phlentyndod yn Frias, ond erbyn hyn does dim ar ôl o'r gwaith arian a chwalwyd y tai yno...

## Grant Mayhew Ltd

GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



01970 832772 / 07846 255881  
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

# YR URDD YN GANT OED



Yn y darlun gwelir: **Rhes ôl (o'r chwith i'r dde)** Gillian Pugh (Marian, Glandyfi), Tony Brian (Lapley Cottage, Ffwrnais), Michael Gates (Bungalo, Glandyfi), Derek Pugh (Felingarreg, Glandyfi), Robin Hopkins (Fferm Cymerau), Tony Williams (Y Garth, Ffwrnais), Michael Jones (Maesnant, Glandyfi), Cheryl Rees (Y Graig, Ffwrnais). **Rhes flaen (o'r chwith i'r dde)** Aelwyn Pugh (Felingarreg, Glandyfi), Raymond Andrew (1, Tan-y-Foel, Eglwys-fach), Annette Dalton (Ynyslâs), Margaret Jenkins (Fferm Ynys Eidol), Gwlithyn Evans (Bronwion, Ffwrnais), Helen Murray (Bryn Awel, Eglwys-fach), Ceri Williams (Y Garth, Ffwrnais), Ann Brian (Y Pandy, Ffwrnais; arweinydd y band llwyddiannus yn Eisteddfod Abertridwr yn 1955), Morfydd Evans (Pen-y-grisiau, Glandyfi, chwaer Gwyndaf Evans, Tal-y-bont).

**O ganlyniad i gyhoeddi'r llun o fand taro Ysgol Eglwys-fach yn y rhifyn diwethaf yn y gyfres ar hanes yr Urdd yn lleol, derbyniwyd yr erthygl ddifys isod, gan Aelwyn Pugh, sy'n enwi holl aelodau'r band a hanes y diwrnod mawr pan enillwyd y wobwr gyntaf yn Eisteddfod yr Urdd yn Abertridwr yn 1955. Diolch Aelwyn.**

Ar yr ail o Fehefin 1955 yr enillodd band taro Ysgol Eglwys-fach y cwpan arian yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Abertridwr. Nid y band yn y llun a enillodd y wobwr. Darlun yw hwn a dynnwyd yn 1956. Erbyn hynny 'roedd yr arweinydd a rhai o aelodau'r band wedi newid.

Clywsom gryn sôn yn ddiweddar am y llanastr a achoswyd i drefniadau ysgolion gan bla'r Cofid. Ond nid peth newydd yw hwn. Yn Nhymor yr Haf 1955, tarwyd y rhan fwyaf o blant Ysgol Eglwys-fach gan y frech goch a brech yr ieir. Er bod band taro'r ysgol eisoes wedi ennill lle i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Abertridwr, 'roedd hi'n amheus y byddai digon o blant iach ar gael i gymryd mantais o'r siawns. Felly rhoddwyd gorau i'r fenter. Ychydig o arwyddocâd oedd hyn i mi yn bersonol. 'Roeddwn eisoes wedi fy nhorri allan o'r band am fod yn 'angherddorol'; eironi o gofio i mi'n ddiweddarach olrhain gyrfa fel athro, darlithydd, cynghorwr ac arolygwr cerdd.

Yn sydyn, ar fore ddydd Mawrth yr hanner tymor, gwelwyd car y brifathrawes, Effie James, yn rasio o dŷ i dŷ drwy'r pentref. 'Roedd wedi penderfynu bod digon o blant wedi gwella iddi fentro mynd a chriw ohonynt i'r brifwyl. Y cam nesaf oedd trefnu i ymarfer. Trannoeth treuliwyd y rhan fwyaf o'r dydd ar lwyfan yr ysgol yn rhoi sglein ar ddawns y 'Sugar Plum Fairy'. 'Roedd yr hogyn a oedd i chwarae'r unawd castanet dal yn rhy sâl i fynd i Abertridwr. Felly bu'n rhaid i'm mrawd, Derek, lenwi'r bwlch. Bu'n ymarfer yn frwd hyd oriau mân y bore.

Mae'n rhaid ei fod wedi meistrolï'r dasg oherwydd, y bore wedyn, ar ôl taith hir i'r De, yn un o fysiau 'John Byns', Penrhyn Coch, cipiodd y band y cwpan arian. Enillwyd yr ornest yn y bore ond bu'n rhaid i'r cerddorion fynd 'nôl a 'mlaen i'r maes i ymarfer ar gyfer y telediad byw yn y prynhawn. Ar ôl danfon telegram i'n nhad, i dorri'r newydd da a'i annog i roi gwybod i bawb yn y pentref, aeth mam o amgylch y dref i edrych am adeiladau ag eerials teledu arnynt i geisio cael caniatâd i wylïo'r rhaglen. Fe'm gadawyd

i yng ngofal y plismon traffig yng nghanol y dref.

O'r diwedd, dyma mam yn dychwelyd i ddweud eu bod wedi llwyddo. 'Roedd streic gyrwyr trenau'n digwydd ar y pryd. Pan glywodd stiward y clwb gweithwyr mai 'railwayman' oedd fy nhad, estynnodd groeso di-ail i ni a'n gwahodd i wylïo'r rhaglen yn y bar. 'Rwy'n cofio bod y teledu'n enfawr, yn fwy fel sgrîn sinema na set arferol, er prin fy mod wedi gweld y fath beth gan mai ychydig iawn ohonynt oedd yn Ysgubor-y-Coed ar y pryd.

Gallaf weld yn glir sut i'r camera ganolbwyntio ar fysedd Mrs Eluned Williams, athrawes a cherddores wych, wrth iddi gyfeilio'r plant. Gallaf weld wynebau fy nghyd-ddisgyblion fel cewri ar y mur. Aeth y cyfweiliad gyda'r arweinydd, Ann Brian, yn ddiwall hyd nes i'r cyflwynydd ofyn pwy oedd cyfansoddwr y darn. 'Doedd dim un o'r plant wedi clywed am Tsiacofsci! Mae'n rhaid bod hyn wedi codi cywilydd ar y brifathrawes. Ar ddechrau Tymor y Gwanwyn pob blwyddyn ar ôl hynny, byddai'n adrodd hanes cyfansoddwr y darn nesaf i'w baratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd.

*Aelwyn Pugh*

**Cofiwch anfon eich hatgofion a'ch lluniau o'ch profiadau chi yn aelodau o'r Urdd. Bydd erthygl ar hanes Aelwyd yr Urdd tua deugain mlynedd ôl yn ymddangos yn y rhifyn nesaf.**



**NICEIC**  
APPROVED  
CONTRACTOR

**Alun Davies**  
Contractiwr Trydanol

**T** 01970 832142 **M** 07703 169813

Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA  
**E** alun.davies142@btinternet.com

LLWYDDIANT I DÎM TALWRN TAL-Y-BONT

Deng mlynedd ar hugain ar ôl i Dîm Pêl-droed Wrecsam guro Arsenal yng nghwpan FA Lloegr dyma feirdd Tal-y-bont yn cyflawni camp llawn mor syfrdanol wrth guro’r cyn-bencampwyr ar sawl achlysur, Y Tir Mawr, yn Rownd Gyntaf Talwrn y Beirdd Radio Cymru eleni. Cawn glywed maes o law pwy fydd yn eu herio yn yr ail rownd, ond bydd eu cefnogwyr yn croesi bysedd taw eleni fydd y flwyddyn i’r tîm lleol fynd yr holl ffordd yn enwedig o gofio mai yn Nhregaron y bydd y Rownd Derfynol.

Dyma ddetholiad o’r cynnyrch a blesiodd y Meuryn, Ceri Wyn Jones.

Trydargerdd

Do, fe gafwyd parti  
â’r byd i gyd dan glo,  
ond cadwyd at reolau,  
ein rheolau ni, on’ d do?  
Gwenallt Llwyd Ifan

Cywydd

Cwch (llythyr at Siôn Corn, oddi wrth SW1A 1AA)  
Nid rhwydd y bu fy mlwyddyn –  
ffraeon dwl, y coffrau’n dynn,  
y Goron hon yn gwanhau ...  
un dilyw o sgandalau.  
Rwy’n teimlo’n hen eleni  
felly gad rhyw fad i fi,  
un roial iot, a’r hwyl wen  
yn gwdyn dan y goeden,  
fy leinar o filiynau  
ar draul y gwŷr bur hoff bau.  
O gaf, nid dingi o gwch  
ond hengaer o Fritangwch.  
Anwen Pierce

Cân Ysgafn

Addunedau  
Fe addunedais llynedd ar ôl rhyw beint neu ddau  
I ddweud naw wfft i Gymru, a ffoi o’r bur hoff bau,  
Dim mwy o’r Meuryn annwyl a’i farcio cytbwys call,  
Cawn ffoi o wlad fy nhadau, a joio yn ddi-ball.

Fe fachais yn yr atlas, gan bori dros bob map,  
Ond hwpais bin yn diwedd a dewis gwlad ar hap.  
Fe wariais siec y Talwrn ac rydwyf erbyn hyn,  
Yn gorwe’n hanner porcyn ar draeth o dywod gwyn.

Y tonnau sydd yn torri ar ben fy nhwtsys noeth,  
A’m corpws sydd yn brown o dan yr heulwen poeth.  
Rwy’n strymio iwalili tra’n chwarae hwla hŵp,  
Gan wyllo South Pacific, sydd gyda fi ar lŵp.

I ginio caf gnau coco a physgod o bob lliw,  
Ac adar o baradwys yn rhoi cyfeiliant byw.  
Rôl cysgad wedi bwyta fe af am wâc i’r traeth  
A chrwban yn fy mhasio tra’n myned ar ei daith.

Ond wrth i’r flwyddyn ddarfod daw hiraeth am fy mro  
A gwn na allaf ddianc, rhaid mynd yn ôl am dro,  
Ac addo gwneud y tasgau a ddaeth o’r Bî Bî Sî,  
Gan wybod bydd y Meuryn yn llonni nghalon i.  
Phil Davies

Pennill Ymson

Ogofwr  
Dwi yma yn y t’wllwch yn gorwedd ar fy hyd,  
fy nwylo’n ymbalfalu, a’m gafael ar ddim byd.  
Mae rhyw lysnafedd erchyll yn glynu i fy het;  
nawr, fe af i’r ogof, i gael hoe o ‘ngwaith fel fet.  
Phil Thomas

Englyn

Pàs  
Dihunwyd had o enyn- yn y gwaed  
o’i gwsg gan y brechlyn,  
a’i drwydded ryddha wedyn  
y llengoedd o gelloedd gwyn.  
Gwenallt Llwyd Ifan

Limrig

“Gwell dau ben nac un” yw’r ddihareb,  
“Gwell tri phen na dau” sy’n synhwyreb,  
“Gwell yw pedwar na thri”  
Meddai rhai wrtho chi,  
I unben fel fi mae’n wiriondeb.  
Phil Davies

GEIRFA DYSGWYR

llwyddiant: success  
teyrnged: tribute  
llwybrau: paths  
hamdden: leisure

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr  
CLERC A SWYDDOG ARIANNOL  
CYFRIFOL I’R CYNGOR

Swydd rhan-amser (tua 34 awr y mis)  
A oes gennych chi sgiliau cyfrifiadurol a chyllidol da?  
Ydych chi’n gallu cyfathrebu yn y Gymraeg a’r Saesneg?  
Hoffech chi swydd ddifyr a diddorol?  
Os ydych wedi rhoi atebion cadarnhaol, beth am i chi gysylltu  
â Megan Mai am ragor o wybodaeth, a swydd-ddisgrifiad:  
Cadeiryddcmm@gmx.com  
Dyddiad Cau: 9 Mawrth 2022

Cwpled caeth  
Pob rhiniog a berchnogwyd;  
un heb dŷ yw Lleucu Llwyd.  
Anwen Pierce

Telyneg  
Cytundeb

Un o uchafbwyntiau’r newyddion o COP26  
oedd bod cynadleddwyr yn prynu Irn Bru yn yr  
archfarchnadoedd ar gyfer partiön.

Mae llif y dŵr yn Ystrad Clyd  
eleni’n llawn o rwd, a storom fawr  
yw genau’r gwynt  
sy’n cynaeafu’r ganrif olew a glo.

Mae bocsys brechdanau gwag  
yn crynhoi yng nghorneli’r meysydd parcio.

Lle mae gronynnau cimychlyd  
o blastig yn waddod ar wely’r môr,  
drostynt mae tonnau o fagiau rhad  
fel baneri ar awel.  
A thra bo’r don cam-ceiliog yn nesáu  
at draethau gwyn ym mhen draw’r byd,  
mae tanau’n gadael golosg ar eu hôl.

Ond yma ar lannau Ystrad Clyd  
cawn drafod amrywiadau un neu ddau y cant,  
a glastwreiddio’r gwir  
â chaniau lliw rhwd ein Irn Bru.  
Gwenallt Llwyd Ifan

Y LLEW GWYN  
Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i’ch croesawu i’r Gwyn.  
Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00  
Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50  
Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00  
(Un cwrs: £7.95 Dau gwrs £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245  
garethwhitelion@outlook.com

# Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

## Cyfarfod o'r Is-Bwyllgor Cynllunio i ystyried Cais Cynllunio A211093 yn Tynant.

Cynhaliwyd cyfarfod o Is-Bwyllgor Cynllunio Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr ar Nos Iau, 27 Chwefror 2022, gyda nifer o aelodau'r cyhoedd yn bresennol. Mae'r Is-Bwyllgor yma yn cynnwys y Cynghorwyr i gyd heblaw am y Cynghorydd Sir, Cyng Ellen ap Gwynn. Mae Ellen yn datgan diddordeb ac nid yw hi yn cymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth ar faterion cynllunio gan y Cyngor Cymuned.

Cychwynnodd y cyfarfod gyda'r Cadeirydd, Cyng Megan Mai yn gofyn i bawb sefyll am funud o ddistawrwydd i gofio'r diweddar Cyng Emyr Wyn Davies, Llety Ifan Hen. Bu Emyr yn gwasanaethu ar y Cyngor Cymuned am gyfnod o tua trideg a phump o flynyddoedd a chynrychiolodd drigolion ardal Bont-goch gydag urddas a brwdfrydedd.

Aeth Megan ymlaen i groesawu pawb i'r cyfarfod. Pwysleisiodd y byddai ymateb y Cyngor Cymuned yn cael ei ystyried gan Gyngor Sir Ceredigion yn yr un modd ag unrhyw wrthwynebiad neu ddatganiad o gefnogaeth gan unrhyw un arall. Eglurodd mae'r Cyngor Sir yw'r awdurdod addas ar gyfer materion cynllunio a bod y Cyngor Cymuned ond yn ystyried ceisiadau cynllunio fel ymgynghorydd. Nodwyd y byddai cyrff statudol megis Cyfoeth Naturiol Cymru, CADW, Dwr Cymru a'r Awdurdod Prifffyrdd hefyd yn debyg o ymateb i'r cais.

Dim ond un cais cynllunio oedd ar yr agenda, sef cais am uned da pluog yn Nhynant, Tal-y-bont. Cafwyd trafodaeth hir am y cais gan ystyried nifer o sylwadau oddi wrth drigolion lleol yn mynegi pryder am y cais ond hefyd nodwyd bod yna rai sylwadau yn cefnogi'r cais. Yn dilyn y drafodaeth cytunodd mwyafrif yr aelodau gefnogi'r cais ond cytunwyd hefyd i fynegi sylwadau ychwanegol ynglŷn â'r pryderon am yr amgylchedd ac addasrwydd y ffordd rhwng Tal-y-bont a Thynant ar gyfer datblygiad o'r maint yma.

## Cyfarfod Misol Mis Ionawr 2022

Dilynwyd cyfarfod yr Is-Bwyllgor Cynllunio gan gyfarfod misol Mis Ionawr gyda'r Cynghorwyr i gyd yn bresennol ynghyd a'r Clerc, Mr Rab Jones. Unwaith eto, cychwynnodd y cyfarfod gyda'r Cadeirydd, Cyng Megan Mai, yn gofyn i bawb sefyll am funud o ddistawrwydd i gofio am y diweddar Cyng Emyr Wyn Davies.

## Swydd y Clerc

Rhoddodd Cyng Megan Mai ddiweddariad ar y broses o edrych am Glerc newydd i wasanaethu'r Cyngor Cymuned. Cytunwyd y bydd rhaid hysbysebu'r swydd unwaith eto mewn nifer o bapurau bro lleol yn yr ardal.

## Sefyllfa Coronafeirws

Rhoddodd y Cynghorydd Sir, Cyng Ellen ap Gwynn, ddiweddariad ar y sefyllfa yng Ngheredigion ynghylch coronafeirws. Mae'n glir fod pryder yn parhau ynglŷn â nifer o achosion o goronafeirws yn y Sir, yn enwedig mewn plant a phobl ifanc, ond bod y sefyllfa wedi gwella rhywfaint. Mae nifer o wasanaethau'r Cyngor Sir wedi dychwelyd i'r sefyllfa arferol erbyn hyn ond mae'n bwysig bod pawb yn parhau i fod yn ofalus.

## Mynwent Tal-y-bont

Cadarnhaodd y Cyng Megan Mai y bydd yr Arch-Esgob yn ymweld â'r fynwent ar Ddydd Mercher, 23 Chwefror, i gysegru'r estyniad i'r fynwent. Rhoddodd y Clerc ddiweddariad ar faterion eraill yn y fynwent.

## Tir Comin Braich Garw

Yn dilyn gohebiaeth oddi wrth Eryl Bray a Jenny Fothergill, cytunwyd ystyried gwella'r mynediad i ddarn o dir ger yr afon sydd yn rhan o Gomin Braich Garw. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd cysylltu gyda'r tîrfeddianwyr lleol sydd yn pori ar y Comin cyn gobeithio mynd ati i wella'r mynediad i'r darn tir.

## Materion Eraill

Cafwyd diweddariad ar nifer o faterion eraill yn cynnwys materion ffyrdd a'r cais i gael croesfan addas ger yr Ysgol. Cadarnhawyd y cynhelir cyfarfod misol nesaf y Cyngor yn y Neuadd Goffa ar Nos Iau, 24 Chwefror 2022.

Rab Jones

Clerc Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

[ceulanamaesmawr@gmx.com](mailto:ceulanamaesmawr@gmx.com) / 07904 716 180

# RSPB

**Ddiwedd Ionawr roedd yr RSPB yn ein hannog unwaith eto i gynnal arolwg o'r adar sydd yn ein gerddi. Sawl un o ddarllenwyr Papur Pawb fuodd wrthi'n brysur 'sgwn i? Rydyn ni yn ardal Papur Pawb yn hynod lwcus bod gwarchodfa natur Ynys-Hir ar ein stepen drws. Dyma ddisgrifiad Tom Kinstruck, Warden RSPB, Ynys-Hir, o ddeffroad y gwanwyn yn Ynys-Hir.**

## Gwanwyn ar y ffordd yn Ynys-Hir



Gylfinir

a'r morfa heli, rhain yn aml yn cael cwmni Hwyaidd yr Eithin a'r Hwyaidd Gynffonfain. Mae digonedd o adar llai yn teithio tua'r iseldir yn y gaeaf, gydag Ehedyddion, Mislod y Morfa, Drudwyod a Tinsiglod Brith yn ffurfio heidiau gwasgaredig o amgylch y caeau gwlyb. Mae'r holl weithgarwch hwn yn denu'r adar ysglyfaethus ac os ydych yn lwcus iawn, efallai y cewch gip ar Boda'r Wern, Boda Tinwyn, Cudyll Bach, Cudyll Coch neu'r Gwalch Glas, naill ai'n clwydo ar ffens neu'n hela ar draws y caeau a'r ffosydd.

Er y daw fod si o wanwyn ar y gwynt a'r gaeaf yn bygwth diflannu mae dal nifer fawr o adar hela a hirgoes o gwmpas y warchodfa. Gellir clywed sŵn y gylfinir o amgylch y gwlypdiroedd ac mae heidiau mawr o Gorhwyaid a Chwiwell yn dal i fwydo allan ar y pyllau



Hwyaidd yr Eithin

Mae'r coetiroedd yn dechrau deffro'n araf ar ôl ychydig fisoedd tawel, gellir clywed y Fronfraith a'r Dresglen yn canu ar fore clir ac mae'r Cnocell Fraith Leiaf wedi dechrau drymio wrth iddi wawrio'r wythnos ddiwethaf.

Mae'r haid fach o Wyddau Talcen Wen brin yn parhau i fwydo a chlwydo ar y glaswelltir gwlyb, gan dreulio eu dyddiau wedi'u cuddio ymhlith y brwyn neu'n golchi mewn nentydd morfa heli. Dros yr wythnosau nesaf byddant yn haws eu gweld wrth iddynt symud i fwydo yn y caeau i'r dwyrain o guddfan Ynys-feurig.

Gobeithio y daw Chwefror a mwy o heulwen a bydd natur yn ymateb gyda gobaith y gwanwyn.

Tom Kinstruck, Warden RSPB, Ynys-Hir.

## Teyrnged: Emyr Llety Ifan Hen



**Brawychwyd ardal eang wrth glywed am farwolaeth sydyn  
Emyr Wyn Davies, Llety Ifan Hen, Bont-goch, ar fore Sul 9  
Ionawr, yn 79 oed.**

Ganwyd Emyr yn Llety Ifan Hen ar 26 Mawrth 1942, yn blentyn hynaf Daniel Davies a'i briod Mary Jane, a bu'r teulu yn amaethu fferm Llety am dros ganrif, ar ôl mudo yno o ardal Llangeitho.

Roedd Emyr yn un o ddisgyblion cyntaf Ysgol Gymraeg Lluest a sefydlwyd gan Syr Ifan ab Owen Edwards, cyn mynychu Ysgol Sir Ardwyn gan adael yn 16 oed i ffermio.

Cyfarfu a'i briod Lisa yn Sioe Tal-y-bont a'i phriodi yn Ionawr 1965. Cawsant bedwar o blant sef, Huw, Nia, Alwen a Elin.



Roedd Emyr yn gyfaill da i nifer, yn ddyn cymwynasgar, addfwyn, pwylllog, cadarn ei farn ac hynod o weithgar. Roedd yn ddyn egwyddorol ac yn Gymro pybyr, ac yn fwy na dim, yn ddyn teulu. Datblygodd Llety Ifan Hen i fod yn un o ffermydd mwyaf cynhyrchiol yr ardal, gan ennill nifer o wobrau am y gwelliannau a wnaethpwyd i ansawdd y tir mynydd. Ers dros ddegawd bu'n fferm organig.

Cofiaf yn iawn y tro  
cyntaf i Eirlys a minnau gwrdd ag Emyr. Roeddem newydd  
symud tŷ i Bantgwyn, pan ddaeth cnoc annisgwyl ar y drws  
a hynny yn go hwyr. Ffermwr oedd yno, yn casglu arian tuag

at Sioe Tal-y-bont, a daeth Emyr mewn am sgwrs fer i estyn croeso cynnes i ni i'r ardal a hynny mewn ystafell llawn o focsys heb eu hagog, a dim cadair i gynnig iddo! Daethom yn gyfeillion da ac agos ers y cyfarfyddiad cyntaf hwnnw, a bu Emyr yn galw'n gyson wedi hynny, gyda'r tŷ mewn gwell trefn gobeithio. Bydd Eirlys a minnau yn trysori y sgyrsiau hynny ac yn gweld eisiau ei gwmnïaeth hyfryd a'i wen ddireidus.

Roedd y cyfarfyddiad cyntaf hwnnw yn gwbl nodweddiadol o Emyr. Er yn ŵr swil, roedd sefydliadau a gwerthoedd y gymdeithas yn agos at ei galon. Gweithiodd yn ddi-flino dros ei gymuned – bu'n aelod gwerthfawr o bwyllgor Sioe Tal-y-bont, ac yn rheolwr y maes am flynyddoedd. Bu ef a Lisa yn llywyddion yn ogystal. Bu'n aelod o bwyllgor Neuadd Tal-y-bont, yn gynghorydd bro ar Gyngor Ceulanamaesmawr am flynyddoedd lawer, yn casglu arian at y cŵn hela, ac yn gadeirydd Treialon Cŵn Defaid Tal-y-bont, a gynhaliwyd yn flynyddol ar dir Llety Ifan Hen.

Roedd Eglwys Elerch  
hefyd yn agos iawn at ei  
galon, ac yno y bedyddiwyd  
Emyr ar 25 Mai 1942.  
Dilynodd ei dad fel warden  
yr Eglwys a hynny am dros  
40 mlynedd, ac ef oedd  
Trysorydd yr achos.

Ac yn gwbl briodol, yn Eglwys St. Pedr, Elerch, y cynhaliwyd ei angladd ar 26 Ionawr 2022 dan ofal ei ficer Y Parchg Ganon Andrew Loat, a gynorthwywyd gan Yr Hybarch Howell Jones a'r Parch Beti-Wyn James, Caerfyrddin, gyda gwasanaeth preifat i'r teulu i ddilyn yn Amlosgfa Aberystwyth. Traddodwyd teyrnged hyfryd iddo gan ei fab Huw, a darllenwyd cerdd 'Mab y Mynydd', o waith Eifion Wyn, gan ei ferch Alwen. Roedd y dyrfa fawr a ddaeth i'r angladd yn arwydd clir o'r parch uchel oedd iddo yn y gymuned.

Cydymdeimlir yn ddifffuant iawn gyda'i briod a'i ffrind gorau Lisa, a'r teulu – Huw a Margaret, Nia a Robin, Alwen a Jon ac Elin a Rhys, a gyda'r wyrion Sara, Lois, Lleucu, Elain, Gruff, Beca a Heti, a'r holl gysylltiadau teuluol.

Derbynnir rhoddion, os dymunir, er côf am Emyr i Apêl  
Cemo Ysbyty Bronglais ac / neu Uned y Byddar, Canolfan  
Elfed, QE High Caerfyrddin trwy law D. J. Evans, Kailari,  
Penrhyn-coch, Ceredigion. SY23 3EQ



REH

# STORFA HUNAN FYNEDIAD



## UNEDAU STORIO DIOGEL & WEDI GWRESOGI



**MONITRO DIOGELWCH  
24 AWR**

*Storfa Cartref & Busnes*

**Bocsas a Bubblewrap**

Symud gyda 



**STORFA CANOLBARTH CYMRU**

Tel: 01654 703592

Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

 **MID WALES  
STORAGE**

[www.midwalesstorage.co.uk](http://www.midwalesstorage.co.uk)

# Ffordd ar Gau



Bydd anghyfleuster mawr i drigolion Bont-goch a'r ardal am ddeg wythnos wrth i waith adnewyddu hanfodol gael ei wneud er mwyn gwella'r ffordd rhwng Tal-y-bont a Bont-goch. Mae'r traffig ar y ffordd gefn o Bont-goch wedi cynyddu, a'r bws ysgol wedi gorfod teithio'r ffordd hir i Ysgol Tal-y-bont, a chasglu'r plant hŷn o Bow Street er mwyn cyrraedd ar amser.

Mewn ergyd arall i'r gymuned mae Dŵr Cymru yn bwriadu torri twll mawr yng nghanol Bont-goch yn y dyddiau nesaf er mwyn ceisio lleoli pibell sy'n gollwng yn y prif gyflenwad. Mae'n debyg y bydd y ffordd ar gau am ddiwrnod, o leiaf.

# Eisiau gweithio gyda phlant bach?



**Mae nifer o wahanol swyddi ar gael mewn Cylchoedd Meithrin a Meithrinfeydd Mudiad Meithrin.**

Dyma gyfle i chi gyflwyno'r Gymraeg i blant bach yn eich ardal chi. Byddwch yn cael pleser o'u gweld yn datblygu'n siaradwyr Cymraeg hyderus gan wybod eich bod chi wedi cyfrannu at hynny!

Am wybodaeth am ein holl swyddi ewch i'n gwefan –

[www.meithrin.cymru/swyddi](http://www.meithrin.cymru/swyddi)

Angen cymhwyster gofal plant?  
Mae gennym nifer o gyrsiau ar gael i'ch helpu –

[www.meithrin.cymru/prentisiaeth](http://www.meithrin.cymru/prentisiaeth)

Am sgwrs pellach: [Leanne.marsh@meithrin.cymru](mailto:Leanne.marsh@meithrin.cymru)  
neu ffoniwch 01970 639639



Rhif eilusen: 1022320

6 Maes y Felin | Talybont | Ceredigion | SY24 5DZ

[www.michaelrowlands.ltd.uk](http://www.michaelrowlands.ltd.uk)  
[m.rowlands1958@gmail.com](mailto:m.rowlands1958@gmail.com)



**Michael Rowlands**  
Adeiladwr

01970 832 732 • 07929 003 576

# Y Gair Olaf



Eisteddais lawr yn ddiweddar i fwynhau paned wrth bori drwy gatalog garddio cyntaf y flwyddyn i gyrraedd yn y post. Fydd hyn yn ddigwyddiad cyffrous yn tŷ ni bob blwyddyn wrth i ni edrych ymlaen at dymor tyfu newydd sbon. Ac wrth droi'r tudalennau, gyda'u lluniau o harddwch a pherffeithrwydd (er mai pur anaml bydd pethau yn edrych yr un fath yn yr ardd fan hyn), fe grwydrodd fy meddyliau tuag at yr harddwch a pherffeithrwydd rwyf wedi ddarganfod dros y ddwy flynedd ddiwethaf wrth weld fy milltir sgwâr drwy lygaid newydd.

Yng ngwanwyn 2020 daeth y cyfnod clo cyntaf i'n rhan ac ar ôl dros 40 mlynedd o gymudo i Aberystwyth bob dydd, yr ystafell wely sbâr ddaeth yn swyddfa newydd. Wrth beidio gorfod teithio i'r gwaith roedd cyfle i fynd am dro bob bore a phob Sul byddem yn tynnu sgidie cerdded ymlaen, pacio fflasg, bocs tocyn a map mewn sach deithio a ffwrdd a ni am brynawn. Rydym wedi darganfod a throedio llwybrau newydd ar hyd y brynau, nentydd a choetir ac wedi'n swyno yn llwyr. Ac wrth gael ambell sgwrs ar y ffordd, wedi dysgu rhai enwau am nodweddion tirlun lleol ni nodwyd ar fap. Yn wir, erbyn haf llynedd, ddaeth yr awydd i fentro ymhellach a buddsoddais mewn beic trydan. Bydd sawl un yn dweud mai “cheto” yw beic o'r fath, ond agorwyd byd newydd i mi a hen atgofion hefyd, wrth bedalu yn fy helmed smotiog i fannau yn y mynyddoedd a lawr i'r môr lle roeddwn yn mynd yn blentyn gyda mam a dad yn yr hen Morris 1000.

Ac ar ôl 40 mlynedd, efallai bod yr amser wedi dod i mi droi i dudalen nesaf y catalog – i ddarganfod mwy a gwerthfawrogi fy nghynefin o'r newydd.

Nia Richards

*Gwasanaeth argraffu diguro*

Holwch Paul  
am bris!  
[paul@yloffa.com](mailto:paul@yloffa.com)  
01970 832 304

**yloffa**

Talybont  
Ceredigion  
SY24 5HE  
[www.yloffa.com](http://www.yloffa.com)

# Chwaraeon a Hamdden

## Cerdded Llwybrau Lleol



Cors Fochno o Foel Goch

**Rydym yn lwcus gyda'r tirlun sydd yn ein hardal a'r cyfleoedd sydd i'w hedmygu wrth gerdded llwybrau'r fro.**

Mae digon o sôn am yr elw corfforol wrth gerdded a'r lles i'n hiechyd sydd yn dilyn. Yn fy marn i, mae hynny'n anwybyddu'r fantais fwyaf o gerdded. Mae mynd ar daith gerdded fel aelod grŵp yn weithred cymdeithasol dros ben ac yn hybu iechyd meddwl gwell. Diddorol yw sylweddoli faint o bobl sydd yn dechrau cerdded a'i fwynhau ar ôl pwysau marwolaeth partner, plant yn gadael yr aelwyd, pwysau gwaith dyddiol, ymddeoliad ac yn y blaen. I'r rhai sy'n byw ar ben eu hunain nid oes angen trefniadau cymhleth i gerdded gydag eraill ond yn troi lan i ddilyn arweinyddes neu arweinydd sy'n gyfarwydd â'r ffordd.

Er y budd o gerdded mewn grŵp mae lles hefyd, wrth gwrs, o gerdded ar ben eich hun, gyda phartner neu deulu. O fyw yn ardal Tal-y-bont rydym yn lwcus i gael digon o lwybrau i gerdded ac nid nod yr erthygl hon yw rhoi disgrifiad manwl o'r llwybrau hyn. Mae mapiau a llyfrau ar gael. Hefyd agorwch y wefan: [www.aberystwythwalks.online](http://www.aberystwythwalks.online) i weld dros hanner cant o lwybrau yn cychwyn o bentrefi Gogledd Ceredigion.

Yn ogystal mae'n werth esbonio'r hawliau cyfreithiol sydd ar gael i gerddwyr, hawliau sydd i'w defnyddio'n ofalus gan gymryd i ystyriaeth ddiddordebau eraill, yn enwedig ffermwyr sydd eisiau ennill bywoliaeth o'r tir.

Ar hyd a lled y wlad mae rhwydwaith o lwybrau cyhoeddus lle y mae hawl i bawb i gerdded. i weld y ffyrdd edrychwch ar beth sy'n cael ei osod yn ffordd werdd ar y map *Ordnance Survey* 1:25000. Hefyd mae mynediad rhydd i gerddwyr ar dir agored, mynyddig fel arfer, sydd wedi'i ddylunio mewn brown ysgafn ar y map, a choedwigoedd wedi eu dylunio mewn gwyrdd ysgafn. Yn debyg i siroedd eraill mae llwybrau cyhoeddus Ceredigion yn cynnwys cyfanswm o dros fil a hanner o filltiroedd. Mae Seland Newydd yn wlad weddol gyfarwydd i mi, yn enwog am ei thirlun môr a mynydd. Mae yn boblogaidd am ei chyfleusterau cerdded ac am ei 'walking trails'. Ond cymharwch Seland Newydd gyda Cheredigion. Mae ardal *Coromandel* yn atyniad twristiaid poblogaidd iawn dwy neu deirgwaith yn fwy na Cheredigion. Ar y *Coromandel* dim ond tua can milltir o lwybrau cyhoeddus sydd yn cael eu hysbysebu. Tu fas i'r llwybrau hyn yma mae bron yn amhosibl cerdded oherwydd does dim hawliau mynediad i'r cyhoedd. Lle y mae coedwigoedd, mae hi'n anodd iawn i gerdded trwy'r tyfiant trwchus. Mae'r can milltir o lwybrau mae Adran Gwarchodaeth Seland Newydd yn eu disgrifio bron yr unig lwybrau cyhoeddus ar gael i'w gerdded yn y *Coromandel*. Efallai y cyfaddefwn fod gan Seland Newydd y tîm rygbi gorau ond Ceredigion fach sydd â'r fuddugoliaeth o safbwynt llwybrau cerdded.

Efallai bod maint y llwybrau cyhoeddus yn ein sir yn teimlo'n ormod i alwadau trigolion ag ymwelwyr Ceredigion. Rhaid derbyn i Gyngor Ceredigion, sydd â'r cyfrifoldeb o gynnal y llwybrau, weithio i ryw gyfundrefn o flaenoriaethu'r gwaith; ni allwn erfyn fod pob llwybr mewn cyflwr da. Y peth pwysig yw sicrhau bod ein llwybrau cyhoeddus yn parhau fel llwybrau cyfreithlon, statudol. Mae'r llwybrau hyn yn estyn 'nôl canrifoedd; rhai hyd yn oed nawr yn croesi pontydd cul pynfeirch; rhai yn ganlyniad i'r Ddeddf Cae Tiroedd amser gynt; rhai eraill yn olion mwynwyr yn teithio o'u cartrefi i'r gwaith. Maent yn rhan o'n hetiffeddiaeth. Unwaith y collir llwybr, ni fydd yn hawdd i'w ail greu. Mae'r wers hon yn glir o flaen ein llygaid wrth ystyried y broses o gau rheilffyrdd gan Dr. Beeching ddegawdau yn ôl, toriadau yr ydym yn awr yn eu difaru.

John Morgan



### Iwan Jones

**Gwasanaethau Pensaernïol**  
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,  
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,  
Ceredigion SY24 5HJ  
[helen.iwan@btinternet.com](mailto:helen.iwan@btinternet.com)  
**01970 832760**



**Am**  
**GOFEBAU ARBENNIG**  
**BEDDARGRAFFIADAU**  
**ADNEWYDDU O SAFON**  
**ARWYDDION AR DAI A**  
**BUSNESAU**

---

*Gofynnwch am bamffled  
rhad ac am ddim*

---

**James Memorials**  
Vicarage Crossing,  
Llandre, Bow Street  
Ffôn: (01970) 820 111

## Blwch Metel yn Symud ar ei Ben ei Hun!



**Pe baech chi wedi gyrru drwy Dal-y-bont amser cinio rhyw ddiwrnod dechrau'r mis, byddech wedi cael dipyn o sioc a byddech efallai wedi rhwbio eich llygaid hyd yn oed! Roedd dyn yng nghanol y ffordd yn cario rhyw ddyfais, a deg llath i ffwrdd roedd cynhwysydd neu gontainer enfawr metel yn symud – ar ben ei hun! Ond nid tric consuriwr neu ffilm sci-fi oedd hyn!**

Clwb pêl-droed ieuenctid Tal-y-bont sydd berchen y cynhwysydd ac roedd yn cael ei gludo o'i hen gartref tu ôl i'r Lolfa i'w gartref newydd ar gae'r Ysgol. Mae'n amlwg bod y contractwr a oedd yn gwneud y symud – Mark Jukes o Aberteifi – yn arbenigwr yn ei waith a doedd y corneli a'r bylchau cul ddim yn broblem iddo fe o gwbl.

Hoffai'r Clwb ddiolch i'r Lolfa am ei haelioni yn rhoi cartref i'r cynhwysydd hyd heddiw ac i'r Ysgol hefyd. Mae swyddogion y Clwb yn gobeithio'n arw na fydd rhaid ei symud am flynyddoedd mawr i ddod!

Tom Cosson